Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 24.11.2020

## Grant Dewisol y clo byr yn parhau ar agor

Mae Cyngor Gwynedd yn annog busnesau'r sir i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer cymorth ariannol Llywodraeth Cymru sydd ar gael i helpu cwmnïau sydd wedi'u heffeithio gan y cyfnod clo byr. Mi wnaeth y Grantiau Ardrethi Annomestig a weinyddir gan yr Awdurdodau Lleol gau 20 Tachwedd 2020. Bydd Grant Dewisol y Cyfyngiadau yn parhau ar agor, ond peidiwch ag oedi rhag cyflwyno eich cais. Wrth ymgeisio, bydd sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ofynnol yn cael eu darparu, a sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir yn cyflymu'r broses. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Grantiau-cloi.aspx

## Cronfa Gweithwyr Llawrydd Cam 3 wedi agor 23 Tachwedd 2020

Yn dilyn y galw uchel am gyllid ar draws y sectorau celfyddydol a diwylliannol, mi wnaeth Cam 3 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd agor ar gyfer ceisiadau ddydd Llun 23 Tachwedd 2020. Mae'r Gronfa bellach wedi ei ymestyn i gynnig cefnogaeth i weithwyr llawrydd yn y maes digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â chwaraeon. Os ydych eisoes wedi derbyn cymorth o'r Gronfa ni ddylid cyflwyno cais pellach ond fe allai Grant Dewisol y Clo Byr (wedi nodi uchod) fod o gymorth. I wirio eich cymhwysedd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

## Canllawiau newydd ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws

Mae canllawiau newydd ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) bellach ar gael. Gallwch wneud cais am CJRS ar-lein nawr ar gyfer cyfnodau o 1 Tachwedd 2020 a bydd angen i chi gyflwyno unrhyw geisiadau ar gyfer mis Tachwedd erbyn 14 Rhagfyr 2020. Does dim angen i chi a'ch gweithwyr fod wedi elwa ar y cynllun o'r blaen i wneud cais am gyfnodau o 1 Tachwedd 2020. Bellach, mae terfynau amser misol ar gyfer hawliadau. Am fwy o fanylion, ewch i:.

https://bit.ly/NewCJRS

## Cyngor Brexit

- Cynllun Dynodiad Daearyddol Newydd y DU 1 Ionawr 2021

Pan fydd y DU yn gadael yr UE ar 1 Ionawr 2021 bydd Cynllun Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig newydd y DU yn dod i rym a fydd yn disodli Cynllun yr Undeb Ewropeaidd. Mae mwy o wybodaeth am y Cynllun yn newyddlen diweddaraf Bwyd a Diod Cymru, ewch i:

https://bit.ly/NewBwydDiod20Tach2020

- Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) yn lansio Briff Parodrwydd i Ymadael â'r UE i Siopau Lleol ACS

Mae'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) wedi cyhoeddi briff Parodrwydd i Ymadael â'r UE ar gyfer y sector cyfleustra i helpu manwerthwyr i ystyried sut

y bydd eu busnesau'n cael eu heffeithio ar ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020. Ewch i:

https://bit.ly/3l024FN

https://bit.ly/EUexitreadinessbriefing

- Masnachu gyda gwledydd y tu allan i'r UE o 1 Ionawr 2021 ymlaen

Bydd y ffordd yr ydych yn mewnforio ac yn allforio gyda gwledydd y tu allan i'r UE yn newid o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3l0igH4

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru